Senedd Cymru
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Canlyniad Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

Mawrth 2023

1. Y Bil a'r cefndir i Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

Ar 4 Gorffennaf 2022, cyflwynodd Mick Antoniw AS, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad ("y Cwnsler Cyffredinol") Fil Cydgrynhoi cyntaf Cymru, sef Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ("y Bil") i'r Senedd.[1]

1. Teitl hir y Bil yw:

> *"Deddf gan Senedd Cymru i gydgrynhoi deddfiadau penodol sy'n ymwneud â chadwraeth amgylchedd hanesyddol Cymru."*

2. Yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, mae'r Cwnsler Cyffredinol yn dweud:

> *"Yr hyn a olygir wrth gydgrynhoi yw dwyn ynghyd y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth (sylfaenol, gan amlaf) ar bwnc penodol fel ei bod yn hawdd dod o hyd iddi, a moderneiddio ffurf y gyfraith a'r modd y caiff ei drafftio er mwyn ei gwneud yn haws ei deall a'i chymhwyso. Yn aml, wrth gydgrynhoi deddfwriaeth, mae nifer o Ddeddfau sy'n bodoli eisoes ar bwnc yn cael eu dwyn ynghyd, gan ddiweddaru a chysoni'r darpariaethau, er mwyn creu Un Ddeddf newydd yn y pen draw."*[2]

3. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Bil at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 4 Gorffennaf 2022 ar gyfer Ystyriaeth Gychwynnol.[3]

4. Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar ein hystyriaethau cychwynnol ar 23 Rhagfyr 2022.[4]

---

[1] Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), fel y'i cyflwynwyd
[2] Llywodraeth Cymru, Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, Gorffennaf 2022, paragraffau 1 a 2
[3] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ddiwygiedig i'w hystyried: Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Hydref 2022
[4] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhagfyr 2022

5. Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol atom ar 12 Ionawr 2023 gan ymateb yn benodol i argymhelliad 10 yn ein hadroddiad.[5] Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol eto ar 18 Ionawr 2023, a darparodd ymateb i'r argymhellion eraill yn ein hadroddiad.[6]

6. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Ionawr 2023. Derbyniwyd cynnig i gytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi.[7]

[5] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 12 Ionawr 2023
[6] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 18 Ionawr 2023
[7] Y Cyfarfod Llawn, 17 Ionawr 2023

2. Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

Dechreuodd y Pwyllgor ei Ystyriaeth Fanwl ar 18 Ionawr 2023, ar ôl i'r Senedd gytuno y dylai'r Bil fynd rhagddo fel Bil Cydgrynhoi.

7. Cytunwyd ar 16 Ionawr 2023, o dan Reol Sefydlog 26C.27, y byddai'r drefn ystyried ar gyfer trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor fel a ganlyn: adrannau 2 i 75; Atodlenni 1 a 3 i 6; adrannau 76 i 157; Atodlenni 2 a 7 i 10; adrannau 158 i 166; Atodlen 11; adrannau 167 i 191; Atodlen 12; adrannau 192 i 213; Atodlenni 13 a 14; adran 1; a'r teitl hir.

8. Ar 24 Ionawr 2023, cyflwynodd y Cwnsler Cyffredinol 45 o welliannau i'r Bil; cyhoeddwyd y rhain mewn Hysbysiad ynghylch Gwelliannau.[8] Hefyd, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at holl Aelodau'r Senedd i roi manylion y gwelliannau a gyflwynwyd i'r Bil, ynghyd ag esboniad o'u diben a'u heffaith, a darparodd ddogfen yn dangos sut y byddai'r newidiadau arfaethedig hyn yn diwygio'r Bil.[9]

9. Ar 6 Chwefror 2023, cyhoeddwyd ail Hysbysiad ynghylch Gwelliannau, yn cynnwys saith gwelliant i'r Bil a gyflwynwyd gan James Evans AS.[10]

10. Cafodd y Bil ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2023.[11] Ar gyfer trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, lluniwyd Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli a Grwpio Gwelliannau ar gyfer eu trafod.[12]

11. Gwnaethom gytuno ar bob un o'r 45 gwelliant a gyflwynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol. Gwrthodwyd y gwelliannau a gyflwynwyd gan James Evans AS, yn ymwneud â diogelu safleoedd llongddrylliadau hanesyddol.

12. Yn ystod y ddadl ar y gwelliannau yn ymwneud â gwarchod safleoedd llongddrylliadau hanesyddol, cytunodd y Cwnsler Cyffredinol i roi manylion i ni ar sut y bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â chynlluniau i adolygu'r holl

[8] Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Hysbysiad ynghylch Gwelliannau – 24 Ionawr 2023
[9] Llywodraeth Cymru: Tabl Diben ac Effaith – 25 Ionawr 2023; Llywodraeth Cymru: Eglurhad o welliannau arfaethedig y Llywodraeth – 25 Ionawr 2023
[10] Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Hysbysiad ynghylch Gwelliannau – 6 Chwefror 2023
[11] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Chwefror 2023
[12] Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Rhestr o welliannau wedi'u didoli – 13 Chwefror 2023; Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Grwpio Gwelliannau – 13 Chwefror 2023

ddeddfwriaeth yn y maes hwn a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymgymryd â gwaith o'r fath.

13. Ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol atom ar 1 Mawrth 2023, gan ddweud:

> *"Mae'r Llywodraeth yn cytuno ag argymhelliad 6 o adroddiad y Pwyllgor ar ei Ystyriaeth Gychwynnol o'r Bil bod angen adolygiad o'r amddiffyniad deddfwriaethol a roddir i'r amgylchedd hanesyddol morol. Bydd adolygiad o'r fath yn ymgymeriad sylweddol oherwydd natur amrywiol yr asedau hanesyddol dan sylw, y galwadau cynyddol ar yr amgylchedd hanesyddol morol a chymeriad cymhleth y fframweithiau amddiffynnol sydd ar waith. Yn ogystal, mae'r broses o reoli gweithgareddau yn nyfroedd Cymru yn cael ei rhannu rhwng swyddogaethau datganoledig a swyddogaethau a gedwir gan Lywodraeth y DU.*
>
> *Er mwyn cynnal yr adolygiad yn effeithiol, bydd angen i Lywodraeth Cymru gasglu tystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwerthuso'r ddeddfwriaeth bresennol yn drylwyr. Bydd Cadw yn ceisio gweithio gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill i ddatblygu'r sail dystiolaeth er mwyn llywio'r adolygiad. Ein nod yw asesu effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth bresennol erbyn diwedd 2024.*
>
> *Bydd angen ystyried y camau nesaf yn dilyn yr adolygiad hwnnw, boed yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol, ynghyd â blaenoriaethau eraill Llywodraeth Cymru ar y pryd."*[13]

14. Ar ddiwedd trafodion Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, gwnaethom ofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a oedd o'r farn bod angen cyflwyno gwelliannau pellach i'r Bil. Ymatebodd y Cwnsler Cyffredinol nad oedd o'r farn bod angen.[14]

15. Cadarnhaodd y Cwnsler Cyffredinol hefyd, yn unol â Rheol Sefydlog 26C.37, y byddai'n paratoi Memorandwm Esboniadol diwygiedig a fyddai'n adlewyrchu ymrwymiadau a wnaed yn ystod yr Ystyriaeth Gychwynnol a diwygiadau a wnaed i'r Bil yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor.[15]

---

[13] Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, 1 Mawrth 2023
[14] Y Pwyllgor DCC, 13 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion [146] a [147]
[15] Y Pwyllgor DCC, 13 Chwefror 2023, Cofnod y Trafodion [139] a [148]

16. Cyhoeddwyd y Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, ar 17 Chwefror 2023.[16]

[16] Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), fel y'i diwygiwyd yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor

3. Argymhelliad i'r Senedd

17. Rydym yn nodi i'r Cwnsler Cyffredinol fynd i'r afael yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor â'r materion yn y Bil a nodwyd yn ein hadroddiad Ystyriaeth Gychwynnol.[17]

18. Rydym yn fodlon ar y wybodaeth a ddarparwyd gan y Cwnsler Cyffredinol ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â chynlluniau i adolygu'r holl ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwarchod safleoedd llongddrylliadau hanesyddol a'r amserlen ddisgwyliedig ar gyfer ymgymryd â gwaith o'r fath.

19. Rydym yn nodi y bydd y Cwnsler Cyffredinol yn diweddaru'r deunydd esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil, gan gynnwys y Memorandwm Esboniadol a Nodiadau'r Drafftwyr.[18]

Argymhelliad i'r Senedd

Yn unol â Rheol Sefydlog 26C.36, rydym o'r farn y dylai'r Bil symud ymlaen i'r Cyfnod Terfynol.

[17] Gweler yr Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), paragraffau 299, 300, 305, 306 a 343.
[18] Gweler, er enghraifft, yr Adroddiad ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), paragraffau 166, 167 a 321.